

# Cynllun Adfer Economaidd Ffeministaidd i Gymru:

*Ailgodi'n gryfach ar ôl Covid-19*

MEHEFIN 2020

## CYFLWYNIAD

Pan fydd argyfyngau'n taro, mae'n hawdd edrych ar gynllunio tymor hwy fel rhyw bleser sy'n tynnu'n sylw, hyd yn oed pan fydd yn ymwneud â mynd i'r afael â materion allweddol fel newid yn yr hinsawdd, anghydraddoldeb rhwng y rhywiau neu dlodi. I'r rheini ohonom sy'n ffodus i fod mewn safleoedd breintiedig lle gallwn feddwl yn y tymor hwy, mae cyfrifoldeb arnom i wneud hynny. Gall gweithio tuag at newid strwythurol gymryd amser hir i ddwyn ffrwyth, ond po hiraf y byddwn yn ei ohirio, anoddaf y bydd cyflawni hynny. Pe na bai'r GIG erioed wedi bodoli, byddai'r argyfwng hwn wedi suddo Cymru hyd yn oed yn bellach i anghydraddoldeb a rhanad disymud.

Felly yn hytrach na rhuthro i ailadeiladu'r status quo o anghydraddoldeb, dylem annog newid strwythurol dwfn i economi sy'n gwerthfawrogi'n well y gwaith y

gwyddom sy'n hanfodol er mwyn ein cynnal. Dylem roi sylw i'r argyfyngau mewn polisiâu gofal iechyd, cymdeithasol, economaidd ac ecolegol sydd wedi'u dwyn i'r amlwg gan y pandemig hwn.

Y rhai sy'n profi'r anghydraddoldebau strwythurol sy'n arwain at iechyd gwael neu fynediad gwael i'r farchnad lafur fydd yn teimlo costau iechyd, cymdeithasol ac economaidd Covid 19 galetaf, a nhw fydd â'r lleiaf o allu i 'adfer'. Os na fydd ffyrdd traddodiadol Cymru o feddwl am yr economi yn gweithio yna mae angen inni fabwysiadu dulliau gweithredu newydd. Rhaid inni ofyn y cwestiwn: ydyn ni'n ddigon dewr i wneud unrhyw beth yn wahanol? Rydym yn nodi'r egwyddorion a'r camau gweithredu ar gyfer dull gweithredu o'r fath isod, ac mae angen eu cymryd yn gyflym.

## DIBEN

Mae'r papur hwn yn nodi'r egwyddorion a'r camau gweithredu pwysicaf y dylent fod yn ganolog i adferiad economaidd Cymru ar ôl Covid 19. Bydd y syniadau a amlinellir isod yn cael eu datblygu ymhellach, ac felly dylid trin y ddogfen hon fel man cychwyn ar gyfer adferiad economaidd ffeministaidd.



## EGWYDDORION

### 1 YMRWYMO I GYMRYD YMAGWEDD ECONOMAIDD FFEMINISTAIDD TUAG AT ADFERIAD:

Nid yw hyn yn golygu y bydd y broses adfer yn canolbwyntio ar fenywod neu y bydd o fudd iddyn nhw yn unig, ond mae'n cydnabod bod yr economi yn fwy na chynhyrchu pethau ar gyfer y farchnad. Mae goroesiad ac atgynhyrchiad pobl a chymdeithas yn gyffredinol yn golygu nid yn unig cynhyrchu nwyddau materol, ond popeth sydd ei angen ar bobl i dyfu a ffynnu, gan gynnwys darparu gofal.

### 2 ADEILADU EIN MODEL ECONOMAIDD AR GYFER Y DYFODOL YN SEILIEDIG AR Y GWERTHOEDD CYFFREDINOL O FOD YN FODAU DYNOL GOFALGAR:

Pam y byddem yn troi yn ôl at hen fodelau o economeg neoryddfrydol sydd wedi bod yn anghynaliadwy i bobl ac i'n hecoleg, pan mae gennym gyfle i ailwerthuso'r hyn sydd wedi bod yn ganolog i'n goroesiad drwy gydol y pandemig hwn.

### 3 RYDYM YN BYW MEWN CYMDEITHAS LLE Y CAIFF PETHAU EU PENDERFYNU AR SAIL RHYW AC FELLY MAE ANGEN DULL MEDDYLGAR SY'N CANOLBWYNTIO AR RYNGBLETHEDD:

Sylweddoli nad yw'r ysgogiadau a gynllunnir (neu a dybir) i fod yn niwtral o ran y rhywiau felly mewn gwirionedd. Rhaid i benderfyniadau ar wariant cyhoeddus a chyllidebau sy'n ymwneud ag adfer ac ailgychwyn yr economi yng Nghymru integreiddio dadansoddiad o'r rhywiau ar draws prosesau cyllidebol, gan ddefnyddio data da, a allai olygu mynd y tu hwnt i'r hyn sydd gennym heddiw.

### 4 DYSGU GWERSI A CHYMRYD CAMAU I ATGYFNERTHU YMDDYGIAD CADARNHAOL:

A ddysgwyd drwy'r argyfwng presennol hwn, yn ogystal ag argyfyngau blaenorol gan gynnwys argyfwng bancio 2008 a'r dirwasgiad byd-eang. Mae'r argyfwng presennol hwn wedi agor meddyliau pobl a sefydliadau i ddulliau amgen,

mathau newydd o fusnesau a threfniadaeth, a modelau busnes datganoledig.

### 5 CYDNABOD GWERTH Y GWAITH GOFAL DI-DÂL SYDD WEDI BOD YN CYNNAL YR ECONOMI AC YN ATGYFNERTHU STEREOTEIPIAU RHYW ERS CENEDLAETHAU:

Ni allwn ac ni ddylem barhau i gymryd yn ganiataol y bydd gofal plant, gofal pobl hyn a gofal o fathau eraill yn parhau i gael eu hysgwyo gan ddinasyddion di-dâl, menywod yn bennaf, a hynny er cymorth enfawr i'r economi bresennol a niwed iddyn nhw'u hunain.

### 6 RHOI POBL A'R BLANED WRTH WRAIDD Y BROSES O WNEUD:

Mae hyn yn gofyn am newid sylweddol mewn cynrychiolaeth lle delir grym a dylanwad, er enghraifft, sicrhau bod menywod yn cael eu cynnwys ar bob lefel o brosesau ymgynghori, gwneud penderfyniadau ac allgymorth cyfathrebu.

### 7 GWERTHFAWROGI GWAITH MENYWOD:

Ers yn rhy hir nid ydym wedi gwerthfawrogi'r gwaith mewn rolau gofalu, glanhau, clerigol, arlwyo a manwerthu, lle mae'r mwyafrif helaeth yn fenywod ac sydd wedi cael eu hystyried yn swyddi sgiliau isel. Drwy gydol yr argyfwng rydym wedi cydnabod y gwaith hwn ac wedi gweld pa mor hanfodol ydyw.

### 8 MAE MODEL GWAHANOL YN GOFYN AM FESURAU GWAHANOL:

Nid ydym am weld y GDP yn adfer yn gyflym: yn hytrach rydym am weld ffocws ar newid strwythurol sy'n ein galluogi i adeiladu economi well, fwy cyfartal, fwy gofalgar, gwyrddach a glanach yn y dyfodol. Gwneud llesiant yn fesur creiddiol yn ein llwyddiant economaidd, nid rhywbeth ymylol neu ddiangen. Hefyd, mae angen i dwf cynhwysol ymwneud â phatrwm y twf yn ogystal â chyfradd y twf; er enghraifft, gwahanu ar sail rhyw o fewn sectorau a diwydiannau gwahanol.

## GWEITHRED

### 1. DYLAU LLYWODRAETH CYMRU EI GWNEUD YN GLIR EI BOD YN CYMRYD **DULL FFEMINISTAIDD O YMATEB I COVID-19**, SY'N CYD-FYND Â'R ARGYMHELLION A DDERBYNIWYD YN FLAENOROL YN YR ADOLYGIAD O GYDRADDOLDEB RHYWIOL:

- 1.1 Gwireddu'r weledigaeth ar gyfer cydraddoldeb rhywiol drwy newid radical yn y ffordd rydym yn gwneud pethau er mwyn sicrhau bod cydraddoldeb yn cael ei brifffrdio'n briodol yng ngwaith y Llywodraeth (Gweledigaeth ac Egwyddorion ar gyfer Llywodraeth Ffeministaidd yn Atodiad)
- 1.2 Adolygu'r cynllun Gweithredu Economaidd a'r Contract Economaidd presennol, yn enwedig y pum galwad i weithredu, er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r amcanion a gytunwyd yn yr Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol, yn enwedig canlyniadau cyfartal, a'r rhai a amlinellir isod.
- 1.3 Hwyluso cynhyrchiant cudd menywod: gallai hyn wneud cyfraniad sylweddol i economi Cymru.

### 2. ER MWYN YSGOGI, AMRYWIO AC AIL-LUNIO'R ECONOMI MAE'N RHAID I NI NEWID O DDIBYNNU AR DDIWYDIANNAU BUDR, ANGHYNALIADWY AC ANSEFYDLOG:

- 2.1 Cadw diwydiannau budr ar gau neu gryfhau mesurau i sicrhau eu bod yn gweithio tuag at fod yn lân yn llawer cyflymach, a chanolbwyntio ar dwf cynaliadwy sy'n gwella'r amgylchedd yn lleol ac yn fyd-eang.
- 2.2 Adolygu sectorau allweddol er mwyn bod yn glir ynghylch pwy maen nhw'n ei gyflogi a beth yw'r gwir gyfraniad maen nhw'n ei wneud. Buddsoddi dim ond pan eir i'r afael ag anghydraddoldebau strwythurol.
- 2.3 Nodi cyfleoedd ar gyfer gyrfaedd mwy cynaliadwy gan ganolbwyntio ar gryfderau ac asedau Cymru.
- 2.4 Cael mewnbwn gan y rhai sy'n cael eu heffeithio, sectorau hanfodol sy'n cyflogi mwyafrif o fenywod a sefydliadau sy'n gwasanaethu menywod a merched.

- 2.5 Defnyddio gwell data croestoriadol a data sydd wedi'i ddadgyfuno i wneud penderfyniadau gwell.
- 2.6 Cefnogi gweithwyr sydd wedi'u dadleoli drwy Gronfa Addasu i Weithwyr ar gyfer ailhyfforddi a symudedd proffesiynol, sy'n canolbwyntio'n benodol ar ymyriadau byrdymor galwedigaethol sy'n galluogi oedolion i symud i sectorau gwahanol.
- 2.5 Sicrhau bod gan fenywod fynediad i swyddi gwyrdd a diwydiannau eraill sy'n datblygu, yn enwedig swyddi technoleg, drwy becynnau ysgogi sy'n hyrwyddo cydraddoldeb rhwng rhywiau a hiliau.

### 3. ER MWYN YSGOGI, AMRYWIO AC AIL-LUNIO'R ECONOMI MAE'N RHAID I NI ADEILADU'R SEILWAITH GWLADOL (GOFAL PLANT, IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL AC ADDYSG):

- 3.1 Sydd wedi dangos ei fod yn fwy effeithiol o ran lleihau diffygion a dyledion cyhoeddus, ac yn hybu cyflogaeth, enillion, twf economaidd a chydaddoldeb rhwng y rhywiau.

### 4. CRYFHAU'R SEILWAITH AR GYFER GWEITHIO GARTREF:

- 4.1 Er mwyn lleihau traffig cymudwyr a chreu amgylchedd sy'n galluogi gweithio hyblyg, gan wella gallu teuluoedd i gydbwyso cyfrifoldebau cartref, gofal a gwaith yn well. Mae'n rhaid i hyn gynnwys darparu TG priodol, gan gynnwys band eang, i deuluoedd sydd ei angen er mwyn addysgu eu plant gartref, sy'n chwilio am waith, neu na fyddent yn gallu gweithio hebddo. Rhoi cymorth ar waith i fusnesau a sefydliadau sy'n trosglwyddo i ffordd modern, carbon isel a mwy hyblyg o weithio.

### 5. UNIONI'R FANTOL O RAN ANGHYDRADDOLDEBAU ECONOMAIDD ER MWYN HYRWYDDO ANNIBYNIETH ARIANNOL MENYWOD:

## GWEITHRED

- 5.1 **Gwella mynediad menywod at gyfalaf**, a dechrau drwy ddeall y cymorth a gynigir hyd yma (er enghraifft drwy'r Gronfa Cydnerthedd Economaidd) drwy ddadansoddiad ar sail rhyw.
- 5.2 Sicrhau y telir **Cyflog Byw** ar draws y sector cyhoeddus a thrwy bob proses gaffael gyhoeddus.
- 5.3 Ymchwilio i ffyrdd o dreialu **Incwm Sylfaenol Cyffredinol** yng Nghymru er mwyn gwella mynediad i'r farchnad lafur.
- 6. MONITRO EFFAITH CAM-DRIN DOMESTIG A THRAIS RHYWIOL:**
- 6.1 Darparu'r adnoddau angenrheidiol ar gyfer cefnogi goroeswyr.
- 7. MAE CREU ECONOMI WIRIONEDDOL GYNHWYSOL YN GOLYGU BUDDSODDI MEWN ECONOMI GOFAL:**
- 7.1 Cydnabod bod gofal mor hanfodol i'n heconomi â dur, briciau a cheblau optig ffibr.
- 7.2 Cynnwys economi gofal di-dâl mewn polisi macro-economaidd a chyfrifo effaith unrhyw bolisi economaidd, a pholisiau eraill, ar faint o waith cyflogedig a di-dâl sydd gan fenywod a dynion.
- 8. DIWYGIO'R POLISI TRETH ER MWYN ATGYFNERTHU'R YMDDYGIADAU SY'N CYFLAWNI'R ECONOMI SYDD EI HANGEN AR GYMRU:**
- 8.1 Darparu cymhellion ar gyfer defnyddio ynni lleol a chynaliadwy, trwy siopa a theithio carbon isel, lleihau gwastraff a defnydd diangen drwy ddiwygio ardrethi busnes, a diwygio cymorth i fusnesau drwy grantiau a benthyciadau yn cynnwys Banc Datblygu a Busnes Cymru.
- 9. DYBLU BUDDSODDIAD MEWN DYSGU GYDOL OES I OEDOLION**
- 9.1 Mynd i'r afael â thlodi digidol ymysg oedolion drwy gynhwysiant digidol i wella rhagolygon swyddi a llesiant, gan gynnwys ieuchyd meddwl.
- 9.2 Cefnogi mesurau pellach i brif-ffrydio'r arfer o bennu dysgu gydol oes mewn cymdeithas.
- 10. EHANGU GOFAL PLANT AM DDIM NEU WEDI'I SYBSIDEIDDIO YN GYFFLYM:**
- 10.1 I alluogi oedolion i ddychwelyd i'r gwaith, a'i ehangu i gynnwys mynediad i'r rheini sy'n ailhyfforddi.
- 11. BLAENORIAETHU CYLLID A CHYMORTH ECONOMAIDD:**
- 11.1 Gan gynnwys buddsoddi mewn seilwaith, ar gyfer grwpiau sy'n wynebu risg uchel o anfantais economaidd bellach, rhieni a rhai gofalu ac i gefnogi mynediad digidol a TG.
- 12. DEFNYDDIO ADDYSG FEL CYFRWNG I FYND I'R AFAEL AG ANGHYDRADDOLDEB A GWAHANU RHWNG Y RHYWIAU FESUL SECTOR A DIWYDIANT:**
- 12.1 Drwy osod targedau clir ar gyfer darparwyr addysg, gan gynnwys yr holl addysg ôl-16 a dysgu seiliedig ar waith, er mwyn sicrhau bod mwy o fenywod a merched yn cael mynediad at bynciau STEM a dysgu galwedigaethol sy'n arwain at swyddi mewn diwydiannau sy'n datblygu
- 12.2 Rhoddwyd gormod o gefnogaeth wag i hyn eisoes, a dylid dwyn darparwyr sy'n derbyn arian cyhoeddus i gyfrif am y rôl y maent yn ei chwarae wrth ddarparu'r llif o weithwyr i farchnad lafur Cymru.
- 13. SICRHAU BOD MENYWOD YN CAEL EU CYNRYCHIOLI O RAN GWNEUD PENDERFYNIADAU AC YMCHWIL HOLLBWYSIG, A DADANSODDI:**
- 13.1 Os nad yw lleisiau menywod yn cael eu cynnwys, ni fyddwn yn mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau cyffredinol sy'n nodweddu cynifer o benderfyniadau am fuddsoddiad ac ymyrraeth gyhoeddus, sy'n parhau'r anghydraddoldebau strwythurol y mae'r pandemig hwn wedi'u hamlygu.



## GWEITHRED

### 14. DANGOS ARWEINIAD DRWY GREU ASiantaeth AILSTRWYTHURO ECONOMAIDD:

14.1 I oruchwyllo'r gwaith o weithredu'r agenda radical hon, a fydd yn cymryd cenhedlaeth i gael ei hymgorffori'n llawn. Sicrhau bod yr Asiantaeth hon yn cael ei datblygu a'i harwain gan dîm amrywiol sydd â safbwyntiau ffres, yn hytrach na'r un hen wynebau.



## ATODIAD

### GWNEUD NID DWEUD: ADOLYGIARD O GYDRADDOLLEB RHYWIOL

#### DATGANIAD O WELEDIGAETH:

Mae Cymru sy'n gyfartal o ran y rhywiau yn golygu rhannu pŵer, adnoddau a dylanwad yn gyfartal rhwng yr holl fenywod, dynion a phobl anneuaid. Gweledigaeth yw hon lle mae'r llywodraeth yn ceisio creu'r amodau i sicrhau canlyniad cyfartal i bawb. Hoffem Gymru:

- Lle gall pob menyw gael annibyniaeth economaidd a lle gwerthfawrogi gwaith am dâl a gwaith di- dâl
- Lle bydd menywod amrywiol yn cael eu cynrychioli'n deg mewn swyddi dylanwad a'u grymuso i chwarae rhan ystyrlon mewn cymdeithas
- Lle bydd pob menyw'n rhydd rhag gwahaniaethu ac yn rhydd i fyw ei bywyd fel y mynna
- Lle daw trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol i ben
- Lle bydd strwythurau pŵer presennol sy'n rhoi menywod dan anfantais yn cael eu herio
- Lle bydd yr holl fenywod, dynion a phobl anneuaid yn mwynhau hawliau a gwarchodaeth gyfartal a chanlyniad cyfartal

#### MAE LLYWODRAETH CYMRU FFEMINISTAIDD:

- Yn ymrwymedig i ganlyniadau cyfartal i bob menyw, dyn a pherson anneuaid ac yn gweithio'n ddiwyd i sbarduno newid diwylliannol a strwythurol;
- Yn mynd ati i hyrwyddo cydraddoldeb a dileu'r rhwystrau yn erbyn cyfranogiad pob menyw yn yr economi, a bywyd cyhoeddus a chymdeithasol; 1 Chwarae Teg (2018) Adolygiad Cyflym o Gydraddoldeb Rhywiol Cam Un Gorffennaf 2018 9
- Yn rhoi persbectif y rhywiau wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau, dyrannu adnoddau a chyllideb;
- Yn cymryd ymagwedd sy'n canolbwyntio ar ryngblethedd yn ei holl waith ac yn sicrhau amrywiaeth o ran cynrychiolaeth, cyfranogiad a llais;
- Yn canolbwyntio ar bobl ac yn gydweithredol, gan sicrhau bod pob cymuned yn ymwneud yn ystyrlon â'i gwaith;
- Yn agored, yn dryloyw ac yn atebol ac yn croesawu gwaith craffu drwy lens rhyw;
- Yn defnyddio offer datblygu polisi a dadansoddi i ymgorffori cydraddoldeb rhywiol ym mhob rhan o'i gwaith ac yn mynd ati'n ddiwyd i fonitro cynnydd tuag at gydraddoldeb gan ddefnyddio sylfaen dystiolaeth gadarn;
- Yn arwain drwy esiampl ac yn cefnogi cyrff cyhoeddus eraill i gymryd camau er mwyn sicrhau cydraddoldeb.

